

Trosolwg

Tuesday, November 5, 2019

9:47 AM

Enw: Hannah Howells

Rhif Myfyriwr: 1600338

Teitl yr Aseiniad: Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfyrwyr) sy'n cyfleu adfyfrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.

Llwybr: TAR Uwchradd

Targedau o'r aseiniad blaenorol:

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn
Targed 1	Prawf-ddarllena dy waith yn	Rydw i wedi darllen dros fy ngwaith ac wedi cyfeirio yn ôl at yr aseiniad diwethaf er mwyn adnabod unrhyw
Targed 2	Gwneud ddefnydd p Cysill er mwyn gwirio dy iaith.	Rydw i wedi defnyddio Cysill er mwyn gwirio fy ngwaith.
Targed 3	Ystyria safbwyntiau gwahanol ymhellach er mwyn cyfoethogi dy werthusiadau beirniadol a'th ysgrifennu academiaidd.	Rydw i wedi sicrhau fy mod i wedi archwilio beth safbwyntiau gwahanol o beth mae ysgolheigion wedi dweud am yr egwyddorion mewn cwestiwn.

Dolen i OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o/g/personal/1600338_student_uwtsd_ac_uk/EtxfLzSWBSIlvMOWZPKNBIBa1bJmTh_5y6y5bcO627kw?e=YqujYd

Asesu ar gyfer Dysgu

Tuesday, November 5, 2019 9:48 AM

'Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu' (Dyfodol Llwyddiannus 2015, t. 67).


Bingo



Gwers Addysg Grefyddol: Blwyddyn 8 - 11/11/19

Testun y wers: Yn ystod y wers yma roedd y disgyblion yn dysgu am reolau bwyd Iddewig a'r termau allweddol wrth adnabod y bwydydd mae Iddewon yn gallu bwyta a'r bwydydd gwaharddedig. I gloi, roeddwn i wedi creu gêm bingo er mwyn asesu dysgu'r disgyblion. Yma mae angen i'r disgyblion gwybod diffiniad y geiriau nhw wedi dewis er mwyn gallu ticio nhw.


'Roi mi 5!'



Gwers Addysg Grefyddol: Blwyddyn 7 - 15/11/19

Testun y wers: Roeddwn i wedi defnyddio 'Roi mi 5' fel tasg cloi er mwyn i'r disgyblion crynhoi'r hyn a dysgwyd o'r wers. Roedd y disgyblion yn defnyddio'r llaw er mwyn crynhoi sut mae Mwslemiaid yn dathlu genedigaeth babi. Roeddwn i'n ofyn am un ffaith ymhob bys. Wrth ddefnyddio'r dull yma, roedd o'n ffurfio asesu ar gyfer dysgu wrth i'r dull dangos cynnydd y disgyblion o grynhoi beth nhw wedi dysgu ac yn ddefnyddiol i athrawon wrth adnabod unrhyw gamsyniadau.

Graff Pyramid



Gwers Addysg Grefyddol: Blwyddyn 8 - 06/12/19


Testun y wers: Yn ystod y wers yma roedd y disgyblion yn gwerthuso rheolau bwyd Iddewig. Fel tasg cloi, roeddwn i wedi creu Graff Pyramid fel modd o asesu dysgu'r disgyblion a dangos cynnydd. Mae'r graff yn galluogi'r disgyblion i ysgrifennu un peth yr oedden nhw'n gwybod yn barod (ers dysgu am reolau bwyd Iddewig), 2 cwestiwn sydd dal ganddyn nhw ac 3 peth yr oedden nhw wedi dysgu yn ystod y wers.

Cyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd

Tuesday, November 5, 2019 9:48 AM

'Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfluoedd yn cael eu darparu i'w harfer' (Dyfodol Llwyddiannus 2015, t. 68).

Llythrennedd



Gwers Addysg Grefyddol: Blwyddyn 7 - 28/11/19

Testun y wers: Roedd y disgyblion yn paratoui am dasg ysgrifenedig i gwblhau gwers nesaf. O ran cyd-destun, mae Blwyddyn 7 wedi bod yn addysgu am seremonïau geni Mwslemaidd a Cristnogol. Roedd angen i'r disgyblion defnyddio'r hyn a dysgwyd a gwerthuso'r seremonïau crefyddol yma. Er mwyn mynd ati i ysgrifennu, roeddwn i am gynnal gwers i baratoi. Yma, roeddwn i'n cynnal trafodaeth dosbarth er mwyn creu Meini Prawf Llwyddiant fesul dosbarth lle rydym yn gallu gosod rhyw fath o strwythur o sut i fynd ati i ysgrifennu. Ymhellach, roedden ni fel dosbarth yn archwilio'r safbwyntiau o blaid ac yn erbyn y gosodiad er mwyn atgyfnerthu barn y disgyblion efo tystiolaeth. Roedd y disgyblion yn cael ymarfer sgil llefaredd wrth archwilio gwahanol safbwyntiau o fewn y dosbarth. Wrth baratoi fesul dosbarth, roedd hyn yn sicrhau roedd pawb yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r dasg ysgrifenedig a sut i fynd ati i ateb yn ôl y Meini Prawf Llwyddiant.

Cymhwysedd Digidol




Cychwyniwyd:	
	. bara pitta a <u>houmous</u> £3
	. halloumi fries £2.50
	. avocado <u>ar</u> dost £2.50
Prif gwers:	
	. sbageti a <u>saws</u> tomato a basil £6
	. cawl llysiau a <u>sbeis</u> £5
	. salad feta <u>groegaid</u> £6.50
Pwddinai:	
	. salad <u>ffrwythau</u> 'r haf £4
	. <u>cacen</u> siocled £5
	. <u>hufen</u> ia (fanila, siocled, <u>mefus</u>) £4

Gwers Addysg Grefyddol: Blwyddyn 8 - 2/11/12

Testun y wers: Roedd y disgyblion angen creu Bwydlen Kosher ar y cyfrifiadur. Mae'r dosbarth wedi bod yn dysgu am reolau bwyd Iddewig o fewn y wersioedd ddiwethaf. Roeddwn i wedi bwcio'r ystafell cyfrifiaduron er mwyn roi'r cyfle i ddisgyblion fod yn greadigol a braslunio bwydlen am deulu Iddewig dod i'w fwyty. Gyda hyn, roedd angen i'r disgyblion defnyddio'r hyn a dysgwyd am gyfreithiau Iddewig a chreu bwydlen yn addas am deulu Iddewig. Roedd angen i'r disgyblion ystyried rheolau bwyd Iddewig wrth gynllunio. Dyma enghraifft o fwydlen roedd Disgybl X wedi creu.

Rhifedd



Gwers BAC: Blwyddyn 8 - 04/12/19


Testun y wers: Roedd y disgyblion wedi creu holiadur am gynladwyedd a phwrpas y wers yma oedd dadansoddi'r data a gasglwyd. Yn ystod y wers roedd y disgyblion yn ymwybodol o'r daith dysgu wrth iddyn nhw ddadansoddi'r data o'r holiadur o wers ddiwethaf lle'r oedd angen i'r disgyblion creu graff bar a phlotio'r data ar y graff. Mae angen i'r disgyblion dehongli'r data a chofnodi disgrifiad o'r canlyniadau.

Cymysgedd o Ddulliau Addysgu

Tuesday, November 5, 2019 9:48 AM

'Mae addysgu a dysgu da yn galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol' (Dyfodol Llwyddiannus 2015, t. 65).

Diagram Venn



Gwers Addysg Grefyddol: Blwyddyn 7 - 11/11/19

Testun y wers: Bedydd Babi a Bedydd Oedolyn

Yn ystod y wers yma, roedd y disgyblion yn dysgu am seremonïau eni Cristnogol. Roeddwn i wedi rhoi darn darllen a deall i'r disgyblion ac roedd angen i'r disgyblion ddefnyddio Diagram Venn i fwydo'r wybodaeth briodol i mewn wrth gymharu beth sy'n debyg rhyngddyn nhw.

Dysgu Uniongyrchol



Cynllun
Gwers ac ...

Gwers Addysg Grefyddol: Blwyddyn 8- 25/11/19

Testun y wers: Creu Bwydlen am deulu Iddewig.

Yn ystod y wers yma, roedd y disgyblion yn wneud dilyniant mewn dysgu wrth greu bwydlen Kosher am deulu Iddewig. Roedd angen iddyn nhw ystyried rheolau bwyd Iddewig a ddysgodd nhw o wersi diwethaf a chynllunio bwydlen a oedd yn addas am

Iddewon. Roeddwn i wedi sgaffladio a modeli o fewn y broses dysgu er mwyn cynorthwyo'r disgyblion yn nhermau gwahaniaethu a dangos disgwyliadau'r dasg.

Hetiau De Bono

Y CHWECH HET!

	Eglurwch 3 o'r rheolau Bwyd Iddewig.		Eglurwch 2 peth positif am gadw Kosher.		Eglurwch 2 peth negyddol o gadw Kosher.
	Creu Bwydlen Kosher 'Cychwynwyr, Prif Bryd a Pwdin!'		'Mae angen i bob Iddew cadw rheolau Kosher' Trafodwch 2 safbwynt.		Beth yw eich barn chi? Ydych chi'n credu ei fod yn anodd i Iddew cadw rheolau Kosher?

Gwers Addysg Grefyddol: Blwyddyn 8 - 6/12/19

Testun y wers: Gwerthuso Rheolau Bwyd Iddewig

Yn ystod y wers yma roeddwn i'n defnyddio Hetiau De Bono fel modd o gael y disgyblion i werthuso rheolau bwyd Iddewig. Mae Hetiau De Bono yn galluogi disgyblion weithredu nifer o sgiliau fel i fod yn greadigol ac yn feirniadol fel mae Pedwar Diben Donaldson yn annog yr agweddau yma.

Adfyfyriad Beirniadol

Tuesday, November 5, 2019

9:48 AM

Cyflwyniad:

Pwrpas yr aseiniad yma yw adfyfyrio'n feirniadol ar brofiadau addysgu yn ystod

bloc un o fy Mhrofiad Addysgu Proffesiynol a oedd wedi cymryd lle yn Ysgol

Uwchradd. Byddaf yn cyfeirio at yr ysgol fel 'Ysgol X' er mwyn dilyn y Ethical

Guidelines for Educational Research (BERA, 2018) i sicrhau anhysbysrwydd.

Bwriad yr aseiniad yw adfyfyrio ar y profiadau yma wrth geisio gweithredu

egwyddorion addysgegol Graham Donaldson (2015).

Sylfaen yr aseiniad yw canolbwyntio ar dair egwyddor, hynny yw, Asesu ar gyfer

Dysgu (AAD), Cyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd ac edrych ar Gymysgedd o Ddulliau

Addysgu. Y rheswm tu ôl dewis y tair egwyddor yma yw bod yr egwyddorion yma

yn 'cyfrannu at yr elfennau sydd yn arwain at ddysgu da' (Dyfodol Llwyddiannus

2015, t. 63). Rydw i'n bwriadu trafod adolygiad llenyddiaeth i archwilio'r

egwyddorion yn fwy manwl, ochr yn ochr adfyfrio ar fy mherfformiad a fy

nghynnydd o gynllunio ac addysgu.

I gloi, mae angen trafod argymhellion ar gyfer datblygiad pellach. Mae'n hanfodol

trwy gydol datblygiad proffesiynol i ddangos sut ydych chi'n mynd i barhau gwneud

cynnydd yn y meysydd yma trwy hefyd meddwl sut gallech chi wella.

Adolygiad Llenyddiaeth:

O fewn yr adran yma, byddaf yn trafod llenyddiaeth academiaidd am y tair

egwyddor er mwyn agor trafodaeth am y pwysigrwydd o weithredu'r egwyddorion.

Mae'r term AAD yn cael ei diffinio fel 'the process of seeking and interpreting

evidence for use by learners and their teachers to decide where the learners are in their learning, where they need to go and how best to get there' (Broadfoot et al., 2002 tt. 2-3). Felly, mae AAD yn cael ei defnyddio fel offeryn i fesur cynnydd disgyblion o fewn y dosbarth o ran mae'r athrawon yn gallu dewis a oes angen mynd dros unrhyw gamsyniadau o'r wers, neu gynllunio am gam nesaf o fewn y daith dysgu.

Yn wir, mae AAD yn rhan o arfer bob dydd gan athrawon a disgyblion sydd yn ceisio myfyrio ac ymateb i wybodaeth 'in ways that enhance ongoing learning' (Klenowski 2009, t. 264). Mae AAD yw unrhyw asesiad lle mae'r flaenoriaeth o'r dyluniad a'i ymarfer yw gwasanaethu'r pwrpas o hyrwyddo dysgu'r disgyblion (Black et al. 2004, t. 10). Mae'r gweithgaredd o asesu yn helpu o fewn y broses o ddysgu os yw'n darparu gwybodaeth y gall athrawon a disgyblion defnyddio fel adborth wrth hunanwerthuso. Ymhellach, mae'n rhoi'r cyfle i'r athrawon addasu'r

addysgu a'r gweithgareddau dysgu lle maent yn ymwneud â hwy. Daw'r asesiad o'r fath yn 'asesiad ffurfiannol' lle mae'r dystiolaeth yn cael ei defnyddio i addasu'r gwaith addysgu er mwyn diwallu a chymhwyso anghenion dysgu pob disgybl (Black et al. 2004, t. 10).

Mae Black a Wiliam (1998) yn trafod pwysigrwydd o'r rhyngweithiad rhwng yr athrawon a'r disgybl. Yn nhermau AAD, mae'r holl waith o'r fath yn cynnwys rhywfaint o adborth rhwng yr athrawon a'r disgyblion, ac mae hyn yn cael ei enteilio o fewn yr ansawdd o'r rhyngweithiad rhyngddynt. Y rhyngweithiad yma 'is at the heart of pedagogy' (Black & Wiliam 1998a, t. 16). Gwelwn felly sut mae AAD fel ffurf o asesiad ffurfiannol, hynny yw o ran y dystiolaeth am gyflawniad y disgyblion yn cael ei chasglu, dehongli a'i defnyddio gan athrawon a'r dysgwyr, yn wneud y penderfyniad ynglŷn â'r camau nesaf o fewn y broses dysgu (Black & Wiliam 2009, t. 9). Ceir nifer wahanol fathau o asesiadau ffurfiannol sydd yn dangos AAD megis

cwestiynu, adborth, asesu cyfoedion a hunanwerthuso (Flórez a Sammons, 2013).

Mae Donaldson (2015) yn ategu effeithiolrwydd AAD wrth ddatgan mae'n helpu

dysgwyr i godi safonau a meithrin uchelgais o gael yr adborth yma.

Mae Donaldson (2015) a'i adolygiad yn argymhell fod angen i llythrennedd, rhifedd a

chymhwysedd digidol fod yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd i athrawon weithredu o

fewn yr ystafell dosbarth. Mae'n hanfodol fod y cwricwlwm newydd yn galluogi

disgyblion datblygu safon uchel o'r agweddau yma a chael y cyfle i gael 'eu

hymestyn a'u cymhwyso ar draws y cwricwlwm' (Dyfodol Llwyddiannus 2015, t. 40).

Dywed Joel Williams (2003, t. 10) mae llythrennedd a rhifedd yw'r sgiliau sylfaenol

sydd eu hangen ar bob unigolyn i allu gweithredu a datblygu o fewn y byd gwaith ac

o fewn y gymdeithas yn gyffredinol. Yn wir, mae llythrennedd a rhifedd yn cael ei

ystyried fel sgil hanfodol, ac wrth i'r genhedlaeth symud o hyd i mewn i'r oes

ddigidol mae'r sgil o allu defnyddio technoleg a gwybodaeth (TGCH) a bod yn

cymwys efo yn dod yn fwy disgwyliedig yn y gweithle modern (Williams, t.10).

Wrth ystyried beth mae Williams yn ei dweud, gwelwn sut mae Donaldson yn

adnabod pwysigrwydd o'r sgiliau yma ac eisoes wedi cynllunio cwricwlwm newydd

sydd yn mynd i ddarparu'r offer sydd ei hangen er mwyn caniatáu i ddisgyblion

ddod yn gymwys o fewn y meysydd yma. O ran llythrennedd, mae Donaldson

(2015) yn egluro pwysigrwydd o gymhwysedd mewn llythrennedd wrth iddo

ddatgan mae angen i blant a phobl ifanc 'egluo eu meddwl, ystyried a thrafod

syniadau a defnyddio sgiliau iaith ar lefel briodol' (Donaldson 2015, t. 40). Gwelwn

er mwyn i ddisgyblion meistrolï'r sgiliau yma, mae angen i athrawon cynnig

cyfleoedd a chyd-destunau iddyn nhw i gryfhau a'u cymhwyso ar draws y

cwricwlwm (Donaldson 2015, t.40).

Ymhellach, mae Donaldson yn datgan mae'r sgil rhifedd o allu dadansoddi data yn 'hanfodol ar gyfer byw a gweithio'n annibynnol' (Donaldson 2015, t. 40). Mae gan athrawon o bob pwnc dyletswydd i alluogi disgyblion manteisio ar gyfleoedd i weithredu sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn wir, mae Donaldson wedi braslunio cwricwlwm newydd sydd efo pwrpas i hyfforddi athrawon i allu cynorthwyo eu disgyblion i ddatblygu 'a critical orientation to life-related situations' trwy'r dull trawsgwricwlaidd yma (Geiger et al 2014, t. 611). Yn yr un modd, mae TGCH yn dod yn sgil fwy blaengar yn ein cymdeithas fodern, ac felly mae angen i ddisgyblion cael ei hyfforddi i fod yn hyderus, diogel ac yn cymwys wrth ddefnyddio technoleg. Mae'r cwricwlwm newydd yn gwrthio am fwy o ddefnydd o dechnoleg o fewn dosbarthiadau er mwyn hybu sgiliau gwybodaeth

Y trydedd egwyddor bydd yr aseiniad yma yn canolbwyntio arno yw 'mae addysgu a dysgu da yn galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol'. Mae Donaldson (2015, t. 65) yn egluro yn ei adolygiad bod angen 'repertoire eang o brofiadau addysgu a dysgu sy'n adlewyrchu'r dibenion y cwricwlwm'. Yr her mae'r system addysg yn ei wynebu yw sut i hyrwyddo amgylcheddau addysgu a dysgu sydd yn helpu datblygu disgyblion yn ôl Pedwar Diben Donaldson (Donaldson 2015, t.31) i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, creadigol, egwyddorol a hyderus ochr yn ochr â datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd.

Yn wir, mae athrawon yn chwarae rôl allweddol o unrhyw arloesi addysgegol (Vincent-Lancrin et al. 2019, t. 184). Mae Vincent-Lancrin et al yn datgan mae angen i athrawon datblygu eu dulliau o addysgu er mwyn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion fod yn greadigol ac i feddwl yn feirniadol. Dywed fod y sgiliau yma yw'r 'centre stage in educational practice' (Vincent-Lancrin et al. 2019, t. 184). Gwelwn

sut mae'r egwyddor Donaldson yn ategu beth mae Vincent-Lancrin et al yn ei dweud wrth i athrawon chwarae rhan ganolog o weithredu cymysgedd o ddulliau addysgu sydd yn meithrin ac asesu creadigrwydd a sgiliau meddwl yn feirniadol o fewn yr ystafell dosbarth (Vincent-Lancrin et al 2019, t. 184).

Mae'n hollbwysig i athrawon gallu mabwysiadu cymysgedd o strategaethau a dulliau addysgu er mwyn creu awyrgylch lle mae'r gweithgareddau yn herio pob un disgybl. Mae'r egwyddor yma yn hanfodol er mwyn i athrawon creu amodau nid yn unig ar gyfer dysgu effeithiol ond hefyd ar gyfer asesu sydd yn sensitif i gryfderau a gwendidau'r dysgwyr (Dylan Wiliam 2010).

Un enghraifft yw addysgu uniongyrchol. Dyma ddull o addysgu traddodiadol sydd yn cael ei defnyddio'n aml o fewn yr ystafell dosbarth. Mae John Hattie (2009) yn

trafod effeithiolrwydd o addysgu uniongyrchol wrth iddo ddatgan yr elfennau hanfodol o ddefnyddio'r dull yma lle mae athrawon yn penderfynu amcanion dysgu ac y meini prawf llwyddiant, ac yn dangos i'r disgyblion trwy fodeli ac ymarfer. Mae Donaldson (2015, t. 65) yn pwysleisio 'mae addysgu uniongyrchol yn galw ar yr athro/athrawes i chwarae rhan drwy sgaffaldio y broses dysgu'. Mae Donaldson (2015) yn mynd ymlaen i nodi mae'r sgaffaldio yma yn creu cyd-destunau lle mae disgyblion yn gallu rhoi'r sgil maent wedi dysgu o weithio'n annibynnol ymhob agwedd o fywyd.

Cynnydd:

Ar gyfer datblygiad proffesiynol, mae'n hollbwysig adfyfrio ar fy mherfformiad a thrafod fy nghynnydd o gynllunio ac addysgu. Yn yr adran yma, byddaf yn cyfeirio at gasgliadau o ran fy mherfformiad o weithredu egwyddorion Donaldson.

O ran gweithredu egwyddorion Donaldson o AAD, yn ystod fy Mhrofiad Dysgu

Proffesiynol o fewn Ysgol X rydw i wedi cynllunio tasgau AAD ar ffurf asesiad

ffurfiannol i gloi pob gwers. Rydw i wedi cynllunio tasgau cloi efo'r pwrpas i

gyfnerthu dysgu'r disgyblion lle maent yn adfyfyrio'r hyn a ddysgwyd a'u cyflawniad

yn y wers. Mae hunanwerthuso ar ffurf tasg cloi yn cael ei chanmol gan Flórez a

Sammons (2013) lle maent yn dweud mai disgyblion yn datblygu mwy o ymreolaeth

mewn perthynas â'u dysgu eu hunain. Mae cael tasg cloi yn hanfodol ac o fudd i

ddisgyblion wrth iddynt feddwl am y 'darlun mawr' o weld sut mae gwahanol rannau

o'r wers yn plethu â'i gilydd (Department for Education and Skills 2004, t. 10).

Wrth gyfeirio at esiampl un o AAD, roeddwn i wedi creu gêm bingo fel ffordd hwyl o

grynhoi'r cynnwys a dysgwyd o'r wers. I raddau, roedd y bingo yn effeithiol am fod y

disgyblion yn mwynhau'r elfen gystadleuol ac felly roedd pawb yn awyddus i gael y

geiriau a'i diffiniad yn gywir. Er hyn, nid oedd y dull yma yn un dibynadwy ac un

dilys o allu gweld a oedd pob disgybl wedi dysgu diffiniad y termau crefyddol.

Roeddwn i'n gweld wrth roi'r diffiniad er mwyn iddyn nhw ddewis y gair priodol

roedd nifer o ddisgyblion yn edrych at ei gilydd am yr ateb neu roedd rhai yn aros

tan yr oeddwn i'n cadarnhau beth oedd y gair cywir.

O ganlyniad i hyn, roedd angen i mi gynllunio ffurf arall o asesu dysgu'r disgyblion

lle'r oedd roedd pob disgybl yn dangos tystiolaeth gadarn o gynnydd lle mae'r athro

yn ymwybodol o le mae pob disgybl o fewn y broses dysgu. Mae hyn yn arwain at

yr ail esiampl o ddefnyddio templed 'Roi mi 5!' fel asesiad ffurfiannol. Roedd 'Roi mi

5!' yn ffordd effeithiol o gael y disgyblion gwerthuso beth ddysgodd nhw wrth iddynt

ddefnyddio pum bys llaw i grynhoi pum peth nhw wedi dysgu o fewn y wers. O ran

cynnydd, roeddwn i'n gweld er roedd y dull yma yn effeithiol, roedd rhestru'r hyn a

ddysgodd nhw ddim yn ddigon manwl o'r fath o adfyfrio roeddwn i eisiau.

Gwelwn gynnydd dros dro lle roeddwn i'n adnabod problemau o ran fy nghynllunio

a gyda hyn roedd angen creu tasg cloi a oedd yn wir yn dangos y 'darlun mawr'.

Mae'r esiampol olaf yn dangos tasg cloi o ddefnyddio graff pyramid. Roedd y graff

pyramid yn galluogi disgyblion gweld y dilyniant mewn dysgu o ran ysgrifennu

rhywbeth oedden nhw'n gwybod yn barod am reolau bwyd Iddewig. Yna, mae'r

disgyblion yn cael ei gwithio i fod yn gritigol ac i holi dau gwestiwn. I ddilyn wedyn, i

gofnodi tair peth maent wedi dysgu o fewn y wers. Roedd y fath o AAD yma yn un

effeithiol o ran maent yn dangos yr adborth uniongyrchol rhwng y disgyblion ac

athrawon lle mae'n agor trafodaeth.

Wrth symud ymlaen i egwyddor Donaldson o gael cymysgedd o ddulliau addysgu,

mae'n hollbwysig i athrawon ymchwilio a threialu gwahanol dechnegau er mwyn

sicrhau addysgu effeithiol a bod disgyblion yn cael y cyfle i ymarfer a gweithredu

sgiliau trawsgwricwlaidd ar draws y cwricwlwm. Wrth edrych ar esiampyl gyntaf,

mae'n dangos llun o waith disgybl sydd yn dangos tabl pwyso a mesur a Meini

Prawf Llwyddiant (M.P.LI). Fel mae'r capsiwn yn egluro, roeddwn i wedi cynllunio i'r

disgyblion trafod, paratoi a chynllunio fesul dosbarth cyn mynd ati i ysgrifennu.

Y rheswm tu ôl defnyddio'r dechneg o drafod syniadau fesul dosbarth yw oherwydd

roeddwn i wedi ymchwilio mewn i John Hattie (2012) a'i lyfr *Visible Learning for*

Teachers. Mae Hattie (2012) yn pwysleisio wrth i ddisgyblion creu M.P.LI fesul

dosbarth mae'n sicrhau mae'r dosbarth cyfan yn ymwybodol o ddisgwyliadau a

strwythur y dasg a sut i daclo. Gwelwn felly sut roedd yr addysgu yn effeithiol wrth i

ddisgyblion gallu archwilio, rhyngweithio a rhannu syniadau a chynllunio am y

camau nesaf o fewn y broses dysgu. Yr unig broblem dwi'n gallu rhagweld efo hyn

yw bod disgyblion yn defnyddio safbwyntiau ei chyfoedion ac felly nid yw pob

unigolyn yn meddwl am ei hunain. Serch hynny, mae Shirley Clarke (2014) yn awgrymu wrth i ddisgyblion rhannu syniadau, gall y disgyblion efo gallu uchel cynorthwyo'r rhai llai abl.

Wrth adfyfrio, gwelwn sut oeddwn i'n arbrofi gyda strategaethau llythrennedd addas sydd yn cefnogi datblygiad iaith o ran yr M.P.LI yn atgyfnerthu strwythur y dasg ysgrifenedig. Ymhellach, roedd y dasg pwysu a mesur yn effeithiol wrth i ddisgyblion cyfnewid syniadau ac ymarfer sgil llefaredd o werthuso o blaid ac yn erbyn y gosodiad. Atgyfnethir Pie Corbett a Julia Strong (2011) fod y fath o addysgu yma yn un effeithiol wrth iddo awgrymu bod siarad cyn ysgrifennu yn gwella sgiliau llythrennedd.

Wrth edrych ar yr ail esiamp, roeddwn i wedi gweithredu cyfrifoldeb

trawsgwricwlaidd wrth cynnig cyfleoedd i'r disgyblion defnyddio sgiliau TGCH. Fel

mae'r capsiwn yn darllen, wnaeth y disgyblion creu bwydlen Kosher ar y cyfrifiadur.

Roedd yr addysgu yn un effeithiol wrth i'r disgyblion dangos agweddau o Bedwar

Diben Donaldson wrth iddyn nhw weithio'n annibynnol ac yn greadigol. Mae Pea

(1985) yn ategu hyn gan ddweud wrth ddefnyddio cyfrifiaduron mae'r addysgu yn

un effeithiol wrth i gyfrifiaduron galluogi disgyblion i ddatblygu sgiliau datrys

problemau a hybu disgyblion i ddangos agweddau sydd yn adlewyrchu Pedwar

Diben Donaldson. Y broblem a oedd wedi codi efo defnyddio'r ystafell cyfrifiaduron

oedd nid oedd pob cyfrifiadur yn gweithio ac felly roedd rhai disgyblion angen newid

ystafelloedd lle oedd yn anodd i mi monitor gwaith ac ymddygiad o fewn y ddwy

ystafell.

Wrth gyfeirio at esiampol olaf sef rhifedd, o fewn fy ngwersi BAC mae'r disgyblion yn

aml yn gweithredu sgiliau datrys problemau wrth ddelio efo rhifedd. Mae'r esiampol

yn dangos llun o waith disgybl sydd wedi creu graff bar ac wedi dadansoddi'r data.

Roedd yr addysgu yn un effeithiol am fy mod i wedi cynllunio cam wrth gam a oedd

yn dangos dilyniant mewn dysgu lle'r oedd cyfres o wersi yn caniatáu i ddisgyblion i

baratoi, casglu ac arwain at ddadansoddi a dehongli data. Gwelwn felly roedd

rhifedd yn cael eu cymhwyso o fewn y wers 'mewn ffordd naturiol a dilys yn hytrach

nag fel elfennau ychwanegol' (Dyfodol Llwyddiannus 2015, t. 69).

Mae'n hanfodol i athrawon fod yn hyblyg trwy ddarparu cymysgedd o ddulliau

addysgu er mwyn roi'r cyfle i ddisgyblion cael profiad o weithredu amrywiad o

sgiliau pwysig. O ran gweithredu'r egwyddor yma, rwyf wedi cynllunio ar gyfer

darparu cymysgedd o strategaethau dysgu. Wrth gyfeirio at yr esiampl gyntaf,

mae'n dangos gwaith disgybl a oedd yn defnyddio Diagram Venn er mwyn cymharu

ag cofnodi nodweddion sy'n debyg rhwng Bedydd Babi a Bedydd Oedolyn. Mae

Tacachta a Leibheal (2008) yn nodi mae Diagram Venn yn fodel hynod o effeithiol

ar gyfer archwilio tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng cysyniadau.

Y broblem a oedd wedi codi efo'r Diagram Venn oedd oherwydd roeddwn i wedi

rhoi darn darllen i'r disgyblion bwydo'r wybodaeth briodol o fewn y cylchoedd cywir,

roedd rhai disgyblion heb roi digon mewn neu wedi drysu. Credaf roedd angen mwy

o sgaffald ac arweiniad gan y disgyblion o ble yn union gallent nhw ffeindio'r

wybodaeth briodol.

Erbyn yr ail esiamp, roeddwn i wedi cynllunio am weithredu dull o ddysgu

uniongyrchol. Yn wir, y ffordd orau o helpu disgyblion yw trwy'r broses o

ryngweithio sydd yn cyd-fynd efo'r model Lluniadaeth Gymdeithasol (Gavalek,

1986). Mae athrawon yn gyfrifol am arwain a helpu'r dysgwyr i wneud synnwyr o'r

dasg ei hunain. Roeddwn i'n sgaffaldio'r dysgu trwy gynnig esiamp o

ddisgwyliadau'r dasg wrth greu bwydlen iddyn nhw ddilyn. Roedd y sgaffald yn llwyddiannus oherwydd roedd 'intersubjectivity' (Rommetveit, 1974). Er hyn wrth farcio, gwelwn roedd nifer o ddisgyblion wedi defnyddio yn union a beth oeddwn i wedi cynnig, ac felly roedd y disgyblion heb feddwl am eu hunain neu fod yn greadigol.

Gwelwn gynnydd o ran fy mherfformiad wrth edrych ar yr esiampl olaf. Defnyddiais Hetiau De Bono (Edward De Bono, 2016) er mwyn cael y disgyblion roi fwy o ymdrech yn ei gwaith lle maent yn gweithredu sgiliau hollbwysig. Mae yna chwe het meddwl o liw gwahanol, ac mae'r hetiau yn drosiad o'r dulliau gwahanol o fod yn rhesymegol ac athronyddol o feddwl yn feirniadol am broblem a cheisio ei datrys (Charles Kivunja 2015, t. 382). Mae'r dull yma o addysgu yn un effeithiol wrth i'r athro cynnig cyfleoedd i addysgu disgyblion sut i ymarfer y sgiliau angenrheidiol yma. Y sgiliau mae'r hetiau yn darparu yn galluogi disgyblion i gael gonestrwydd,

empathi, i allu archwilio, egluro, cyfiawnhau, dadansoddi, gwerthuso ac adfyfyrio

sef yn wir y sgiliau 'which are essential for harmonious cohabitation by humans'

(Kivunja 2015, t. 382). Gwelwn yn glir sut mae'r sgiliau yma yn adlewyrchu'r

agweddau mae Donaldson eisiau disgyblion datblygu.

I gloi:

Mae'n hollbwysig trafod argymhellion ar gyfer datblygiad pellach. Rydw i'n bwriadu

gwneud cynnydd o fewn y meysydd a drafodwyd ond yn bennaf rydw i am

ddatblygu ymhellach egwyddor Donaldson o weithredu cyfrifoldeb

trawsgwricwlaidd. Am fy mod i'n dysgu Addysg Grefyddol, teimlaf fod hi'n anodd

plethu rhifedd i mewn i'r pwnc. Ar gyfer fy natblygiad proffesiynol, mae'n hollbwysig

fy mod i'n hymchwilio sut i sicrhau rydw i'n ufuddhau amcanion y cwricwlwm trwy

fewnbynnu rhifedd o fewn Addysg Grefyddol.

Mae adroddiad HWB (2019) yn trafod sut mae'r cwricwlwm newydd yn galluogi Dyniaethau i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion datblygu sgiliau rhifedd o fewn cydestunau byd go iawn (HWB 2019, t. 11). Mae'r adroddiad yn cynnig syniadau fel gall disgyblion datblygu eu sgiliau o drin, dadansoddi a gwerthuso data. Rydw i'n bwriadu yn ystod bloc dau o fy Mhrofiad Dysgu Proffesiynol mewnbynnu sgiliau rhifedd o fewn fy ngwersi. Mae Blwyddyn 7 ar fi'n dechrau Bar Mitzvah ac rydw i'n bwriadu cynllunio gwers lle fydd y disgyblion yn cynllunio seremoni Bar Mitzvah ar gyfer ffrind Iddewig lle fydd angen iddyn nhw ddelio efo cyllideb.

Gwelwn sut mae'r tair egwyddor Donaldson yn plethu i mewn i'w gilydd. Wnaeth yr National Foundation for Educational Research (NFER) ac ymchwiliad Arad cyfeirio at Parsons a Beauchamps (2012) wrth ysgrifennu adroddiad a oedd wedi dod i'r

canfyddiad bod y gwledydd a oedd yn perfformio'n orau oedd y gwledydd a oedd wedi rhoi pwyslais ar y sgiliau megis datrys problemau, i allu meddwl yn feirniadol ac yn greadigol, dewis a dethol gwybodaeth, cymhwyso gwybodaeth ac i ddod i gasgliadau (Donaldson 2015, t. 42).

Felly yn yr un modd, mae AAD yn galluogi disgyblion i grynhoi'r hyn a dysgwyd o fewn y wers a chaniatáu'r athrawon mesur y cynnydd yma. Mae'r disgyblion yn gweithredu ar y sgiliau trawsgwricwlaidd sydd yn sylfaen i bob math o ddysgu ac yn hanfodol yn ei ddatblygiad fel unigolyn. Ymhellach, gwelwn yn glir wrth i athrawon defnyddio dulliau gwahanol o addysgu, mae'n galluogi disgyblion weithredu'r sgil o ddewis a dethol gwybodaeth, i allu gwerthuso a bod yn feirniadol sydd yn y bôn yn cyd-fynd efo Pedwar Diben Donaldson (Dyfodol Llwyddiannus 2015).

Cyfeiriadau

Tuesday, November 5, 2019 9:48 AM

Black, P. J., Wiliam, D. (1998a). 'Assessment and classroom learning' yn *Assessment in Education: Principles, Policy and Practice*. Cyfr. 5 (1), tt. 7-74. <<https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/0969595980050102>> (Dyddiad Mynediad 18/12/19).

Black, P. J., Wiliam, D. (2009). 'Developing the theory of formative assessment' yn *Educational Assessment, Evaluation and Accountability*, Cyfr. 21 (1), tt. 5-31. <<https://link.springer.com/article/10.1007%2Fs11092-008-9068-5>> (Dyddiad Mynediad 18/12/19).

Black, P., Harrison, C., Lee, C., Marshall, B., & Wiliam, D. (2004). 'Working inside the Black Box: Assessment for learning in the classroom' yn *Phi Delta Kappan*, 86(1), tt. 8-21. <<https://journals.sagepub.com/doi/10.1177/003172170408600105>> (Dyddiad Mynediad 18/12/19).

British Educational Research Association. (2018). 'Ethical Guidelines for Educational Research' (4), Llundain. <<https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018>> (Dyddiad Mynediad 18/12/19).

Broadfoot, P. M., Daugherty, R., Gardner, J., Harlen, W., James, M., Stobart, G. (2002). *Assessment for Learning: 10 Principles*. Cambridge: University of Cambridge School of Education.

Clarke, S. (2014). *Outstanding Formative Assessment: Culture and Practice*. Llundain: Hodder Education.

Corbett, P., Strong, J. (2011). *Talk for Writing across the Curriculum*. Berkshire: Open University Press.

De Bono, E. (2016). *Six Thinking Hats*. Llundain: Penguin Books.

Department of Education and Skills (2004). 'Supporting ITT Providers: The Effective use of Plenaries'. <<https://dera.ioe.ac.uk/7555/1/nso/pdf/97316e2ce1d4226cd555caf75f280cb6.pdf>> (Dyddiad Mynediad 03.01.2020).

Donaldson, G. (2015). 'Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru'. Caerdydd: Llywodraeth Cenedlaethol Cymru. <<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf>> (Dyddiad Mynediad 18/12/19).

Flórez, M.T., Sammons, P. (2013). 'Assessment for Learning: Effects and impact'. Oxford University Department of Education: CfBT Education Trust.

<<https://www.educationdevelopmenttrust.com/EducationDevelopmentTrust/files/5a/5a6d6203-ec49-4d33-9c5d-42c188184807.pdf>> (Dyddiad Mynediad 03.01.2020).

Gavelek, J. (1986). *The social contexts of literacy and schooling: A developmental perspective*. yn T.E. Raphael (Ed.), *The contexts of school-based literacy*. Efrog Newydd: Random House.

Geiger, V., Forgasz, H., Goos, M. (2014). 'A critical orientation to numeracy across the curriculum' yn *ZDM Mathematics Education* (2015). Cyfr 47 (4) tt. 611-624. <<https://link.springer.com/article/10.1007%2Fs11858-014-0648-1>> (Dyddiad Mynediad 19/12/19).

Hattie, J. (2009). *Visible Learning: A Synthesis of Over 800 Meta-analyses Relating to Achievement*. Abingdon: Routledge.

Hattie, J. (2012). *Visible Learning for Teachers: Maximizing Impact on Learning*. Llundain: Routledge.

HWB. (Ebrill 2019). 'Draft Statutory Guidance - Area of Learning and Experience: Humanities'. Llywodraeth Cymru. <<https://hwb.gov.wales/storage/cc0ec1e5-dbd1-4137-8811-5c88742dc3f3/draft-statutory-guidance-humanities.pdf>> (Dyddiad Mynediad 03.01.2020)

Kivunja, C. (2015). 'Using De Bono's Six Thinking Hats Model to Teach Critical Thinking and Problem Solving Skills Essential for Success in the 21st Century Economy'. *Creative Education*, Cyfr 6, tt. 380-391. <https://file.scirp.org/pdf/CE_20150317110033222.pdf> (Dyddiad Mynediad 03/01/2020).

Klenowski, V. (2009). 'Editorial: Assessment for Learning Revisited: An Asia-Pacific Perspective'. *Assessment in Education: Principles, Policy, and Practice*, 16 (3), tt. 263-268. <<https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/09695940903319646>> (Dyddiad Mynediad 18/12/19).

NFER ac Arad Research (2013). 'A Rapid Evidence Assessment on the Impact of Curriculum and Assessment Arrangements within High Performing Countries'. Cymru: Llywodraeth Cymru.

Parsons, J., Beauchamp, L. (2012). *From Knowledge to Action: Shaping the Future of Curriculum Development in Alberta*. Edmonton, Alberta: Alberta Education.

Pea, R. D. (1985). 'Beyond amplification: Using computers to reorganize human mental functioning', *Educational Psychologist*, Cyfr. 20, tt. 167-182. <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1207/s15326985ep2004_2> (Dyddiad Mynediad 18/12/19).

Rommetveit, R. (1974). *On message structure: A framework for the study of language and connection*. Efrog Newydd: John Wiley.

Parsons, J., and Beauchamp, L. 2012. *From Knowledge to Action: Shaping*

the Future of

Curriculum Development in Alberta. Edmonton, Alberta: Alberta Education.

Tacachta, S., & Leibheal, D. (2008). *Using Graphic Organisers in Teaching and Learning.* Navan: Costelo Print

William, D. (2010). 'The role of formative assessment in effective learning environments' yn Dumont, H., Instance, D., Benavides, F (eds), *The Nature of Learning: Using Research to inspire Practice*, tt. 135-158. Paris: OECD Publishing. <https://ethz.ch/content/dam/ethz/special-interest/dual/educeth-dam/documents/forschung-und-literatur/literatur-zur-lehr-und-lernforschung/aeltere-beitraege/2011_5_oecdbuch.pdf> (Dyddiad Mynediad 20/12/19).

Williams, J. (2003). *The Skills for Life survey: A National needs and Impact Survey of Literacy, Numeracy and ICT Skills.* Norwich: Department for Education and Skills.

Vincent-Lancrin, S., et al. (2019), 'Fostering Students' Creativity and Critical Thinking: What it Means in School' yn *Educational Research and Innovation*. Paris: OECD Publishing. <https://www.oecd-ilibrary.org/education/fostering-students-creativity-and-critical-thinking_62212c37-en> (Dyddiad Mynediad 20/12/10).